Cyswllt · Contact
Ffôn · Telephone
Ein cyf · Our ref
Eich cyf · Your ref
Dyddiad · Date
e-bost · e-mail

Mrs Rebeca Jones
01766 772256

16th February 2018
rebeca.jones@eryri.llyw.cymru

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
lle i enaid gael llonydd
SNOWDONIA NATIONAL PARK
one of Britain's breathing spaces

Mr Richard Duggan
Yr Arolygiaeth Cynllunio
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Annwyl Mr Duggan,

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cynllun Datblygu Lleol 2016 - 2031 Archwiliad Adolygu

Ysgrifennaf atoch gan gyfeirio at eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror 2018 a'ch cais i'r Awdurdod hysbysebu 'Newidiadau Ffocws'.

O ran gwybodaeth gefndirol, roedd yr Awdurdod wedi bwriadu hysbysebu Newidiadau Ffocws yn dilyn yr Ymgynghoriad Adneuo'r llynedd. Fodd bynnag, cynghorwyd yr Awdurdod, gan fod y newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn rhai bach y gellid delio â hwy drwy gyfrwng y broses Archwilio. Derbyniodd yr Awdurdod y cyngor hwn, a dyna pam na chyflawnwyd y cam Newidiadau Ffocws cyn iddo gael ei gyflwyno.

Ar ôl derbyn eich llythyr bydd yr Awdurdod nawr yn hysbysebu pob newid pellach fel 'Newidiadau Ffocws'. Fel y gofynnwyd, mae'r Awdurdod wedi paratoi rhestr o ddogfennau y mae angen eu paratoi ar gyfer yr Ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws ynghyd ag amserlen fanwl ar gyfer y gwaith hwn, ac fe amlinellir y rhain isod: -

- Dogfen Ymgynghori Newidiadau Ffocws
- Arfarniad / Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol / Asesiad Rheoliad Cynefinoedd
- Asesiad o Effaith Cydraddoldeb
- Asesiad Effaith ar Iechyd
- Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad a Nodyn Canllaw

Cam	Dyddiad
Cwblhau Dogfen Newidiadau Ffocws drafft ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad (07/03/17)	**Erbyn 22/02/17**
Cwblhau'r dogfennau a ganlyn yn derfynol • Arfarniad / Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol / Asesiad Rheoliad Cynefinoedd	**Erbyn 07/03/17**

• Asesiad o Effaith Cydraddoldeb • Asesiad Effaith ar Iechyd • Nodyn Canllaw	
Cwblhau'r Ddogfen Newidiadau Ffocws ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus yn dilyn cytundeb Aelodau'r Awdurdod yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad (07/03/17)	**Erbyn 12/03/17**
Ymgynghoriad cyhoeddus 6 - wythnos ar y Newidiadau Ffocws	**Rhwng 16/03/17-27/04/17**

Yn ychwanegol at yr uchod, byddai'r Awdurdod yn hoffi eglurhad ar y mater o ran y Cyfarfod Cyn y Gwrandawiad. Yng Nghanllawiau Gweithdrefn Cynlluniau Datblygu Lleol yr Arolygiaeth Gynllunio Awst 2015 mae Tabl 3 ar dudalen 7 yn nodi gydag adolygiadau rhannol y bydd sesiynau gwrando yn para hyd at 4 diwrnod heb unrhyw Gyfarfod Cyn y Gwrandawiad. Byddai'r Awdurdod yn ddiolchgar pe bai'r Arolygydd yn rhoi gwybod a oes angen Cyfarfod Cyn y Gwrandawiad yn yr achos hwn.

Yr eiddoch yn gywir

Rebeca Jones

Mrs Rebeca Jones
Pennaeth Polisi Cynllunio